CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, LLANELIAN AM 7.30yh DYDD LLUN 7fed MEDI 2026

1. **CROESO** – Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Glena Humphrey, bawb i'r cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL** – Cynghorwyr Glena Humphrey, Irwedd Griffiths, Hefin Williams, Gwenda Davies, Gwawr Thomas Goronwy R. Williams, John Evans, D Gwyn Jones, Gethin Owen, Cynghorydd Sir Ifor G. Lloyd a'r Clerc Mel Jones.

   Arsyllwr – Mr John Wynne

3. **YMDDIHEURIADAU** – Cynghorydd Tudur Roberts,

4. **DATGANIAD O FUDDIANT**
   Atgoffir yr aelodau bod yn rhaid iddynt ddatgan bodolaeth a natur unrhyw fuddiannau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir at y diben hwnnw. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi datgan ei fod yn aelod o'r pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond gall ateb cwestiynau sy'n ymwneud â rheoliadau a pholisïau cynllunio.

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

5. **COFNODION**
   Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Gorffennaf Mehefin 2026. Cymeradwywyd a llofnodwyd y cofnodion.

(Cynigiwyd gan y Cynghorydd Goronwy Williams ac eilwyd gan y Cynghorydd John Evans)

6. **MATERION YN CODI**

   Dim materion yn codi

7. **CYLLID**

   Cynhyrchwyd y Datganiadau Ariannol misol ar gyfer y cyfnodau yn diweddu 20fed Gorffennaf 2026 a 20fed Awst 2026

   Yn diweddu 20fed Gorffennaf 2026

   (1) **Cyfrif Cymunedol** = £6,462.48 (Balans a ddygwyd ymlaen)
   Arian a dderbyniwyd = **£**339.20 (Adaliad VAT)

   Arian a dalwyd:

   £205.80 (HMRC Cyflog y Clerc)
   £400.00 (Cyflog y Clerc)
   £213.17 (Cyflog y Clerc)
   £65.50 (Anfoneb Aston Hughes - cyflogi)
   £70.00 (Anfoneb Hilda Gibbs – garddio)

   £247.62 (Anfoneb CCBC – goleuadau coeden Nadolig)

   £44.00 (Anfoneb Un Llais Cymru – hyfforddiant)

   £44.00 (Anfoneb Un Llais Cymru – hyfforddiant)

   £44.00 (Anfoneb Un Llais Cymru – hyfforddiant)

   £44.00 (Anfoneb Un Llais Cymru – hyfforddiant)

   £383.22 (Anfoneb Audit Cymru -Audit)

   £44.00 (Anfoneb Un Llais Cymru – hyfforddiant)

   £109.33 (Anfoneb BT - WiFi)

   £205.80 (HMRC Cyflog y Clerc)

   CYFANSWM – £1,470.10 – Talwyd allan

   £339.20 – Talwyd i mewn

   Cyfrif Cymunedol = £4,681.24 (Balans a ddygwyd ymlaen)

(2) **Cyfrif Busnes** = £4,147161 (Balans a ddygwyd ymlaen)
Arian a dalwyd = DIM
Arian a dderbyniwyd = DIM

Cyfrif Busnes = £4,147.16 (Balans a ddygwyd ymlaen)

Cyfanswm = £8,828.40 (Balans a ddygwyd ymlaen)

Yn diweddu 20fed Awst 2026

(1) **Cyfrif Cymunedol** = £4,681.24 (Balans a ddygwyd ymlaen)
Arian a dderbyniwyd = **£**7,333.00 **(**Praesept CCBC)

Arian a dalwyd:

£400.00 (Cyflog y Clerc)
£213.17 (Cyflog y Clerc)
£5.00 (Anfoneb Y Gadlas – erthygl Ena Wynne)
£18.27 (Anfoneb Aston Hughes – adaliad)

£44.00 (Anfoneb Un Llais Cymru – hyfforddiant)

£50.00 (Clerc – Blodau Ena Wynne)

£207.00 (Anfoneb Un Llais Cymru – Aelodaeth y flwyddyn)

£109.33 (Anfoneb BT - WiFi)

£205.80 (HMRC Cyflog y Clerc)

CYFANSWM – £1,252.57 – Talwyd allan

£7,333.00 – Talwyd i mewn

Cyfrif Cymunedol = £10,761.67 (Balans a ddygwyd ymlaen)

(2) **Cyfrif Busnes** = £4,147161 (Balans a ddygwyd ymlaen)
Arian a dalwyd = DIM
Arian a dderbyniwyd = DIM

Cyfrif Busnes = £4,147.16 (Balans a ddygwyd ymlaen)

Cyfanswm = **£14,908.83** (Balans a ddygwyd ymlaen)

Nododd yr aelodau'r sefyllfa ariannol a balansau'r cyfrifon banc fel y nodir uchod. Cytunodd pawb fod y cyfrifon yn gywir.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol, mae bellach yn angenrheidiol i'r Cyngor gymeradwyo pob anfoneb cyn gwneud unrhyw daliadau ar-lein.

Adroddodd y Clerc fod y grant o **£500** a awdurdodwyd i Fynwent Betws yn Rhos wedi'i dalu a bod cadarnhad wedi'i dderbyn drwy e-bost.

Derbyniwyd anfoneb BT am **£109.33**. Cytunwyd y gellid talu'r anfoneb.

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr anfonebau canlynol, a dalwyd yn ystod cyfnod y toriad:

1. **£18.27** – Aston Hughes, diffyg yn y taliad sefydlog.
2. **£50.00** – Ad-daliad i'r Clerc am y blodau a brynwyd ar gyfer pen-blwydd Mrs Ena Wynne yn 100 oed.
3. **£44.00** – Un Llais Cymru, sesiwn hyfforddi i'r Cynghorydd Glena Humphrey.
4. **£5.00** – Y Gadlas, cyfarchiad pen-blwydd i Mrs Ena Wynne.
5. **£207.00** – Un Llais Cymru, aelodaeth blynyddol.

Adroddodd y Clerc fod gwybodaeth wedi ei derbyn ar 24ain Awst 2026 gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol ynghylch Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol 2026–2027. Roedd copi wedi ei anfon at y Cadeirydd, yn unol ag argymhelliad yr Archwilydd Mewnol.

Mae'r raddfa gyflog newydd ar gyfer y Clerc, SCP 17, yn weithredol o 1af Ebrill 2026, ac mae'n cynyddu o £16.08 yr awr i £16.61 yr awr.

Cytunwyd yn unfrydol i weithredu'r dyfarniad cyflog ac i ôl-ddyddio'r cynnydd i 1af Ebrill 2026.

Bydd y Clerc yn hysbysu Aston Hughes, yr asiant cyflogres, ac yn sicrhau bod e-byst sy'n ymwneud â'r dyfarniad cyflog blynyddol yn cael eu copïo at y Cadeirydd, yn unol ag argymhelliad yr Archwilydd

8. **GOHEBIAETH**

Derbyniwyd

1. Cerdyn gan Mrs Ena Wynne a'i theulu yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y cerdyn pen-blwydd a'r tusw o flodau ar achlysur ei phen-blwydd yn 100 oed.
2. E-bost gan y Gymdeithas Placiau Porffor yn gwahodd aelodau i ddadorchuddio'r Plac Porffor i Mary Lloyd Wynne ddydd Iau, 24 Medi, am 12.00 canol dydd yn Eglwys Sant Mihangel, Betws-yn-Rhos. Bydd y Cynghorwyr Ifor Lloyd, John Evans, Goronwy Williams a'r Clerc yn bresennol.
3. E-bost gan y Gymdeithas Chwaraeon ynghylch yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn 2026. Roeddent yn pryderu bod aelodau o'r cyhoedd yn dod â chŵn i'r lawnt fowlio a'r cae chwaraeon. Roedd y Gymdeithas Chwaraeon yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned er mwyn sicrhau bod rheolau ar waith i atal hyn rhag digwydd.

   Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd gan y Cynghorydd Gwenda Davies y dylai'r Cyngor Cymuned gefnogi'r Gymdeithas Chwaraeon. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Irwedd Griffiths. Pleidleisiodd y Cynghorwyr yn unfrydol o blaid.

   Bydd y Clerc yn ysgrifennu at ERF i roi gwybod iddynt am benderfyniad y Cyngor.
4. E-byst rheolaidd gan Un Llais Cymru, Gweithrediaeth Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill, gyda'r rhai perthnasol yn cael eu hanfon ymlaen at y Cynghorwyr ac ar gael gan y Clerc.

Anfonwyd

1. Ymatebion ac ymholiadau i Adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
2. Llythyrau ac e-byst a dderbyniwyd ac yr oedd angen eu hanfon ymlaen at y Cynghorwyr.

9. **GRANTIAU**

Ceisiadau i'r Cyngor Cymuned

1.Llythyr gan Mrs Ann Vaughan yn gofyn am y grant blynyddol o £500.00 i Fynwent Trofarth ar gyfer torri'r gwair drwy gydol y flwyddyn. Cytunwyd yn unfrydol i ddyfarnu'r grant. Bydd y Clerc yn cysylltu â Mrs Vaughan a Mrs Sue Pinney i drefnu'r taliad**.**

2.Derbyniwyd e-bost gan Marie Wood, Cerebral Palsy Cymru, yn gofyn am gyfraniad tuag at eu gwaith yn ystod 2026–2027, gan ddarparu therapi hanfodol a gofal arbenigol i blant ledled Cymru. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd na ellid gwneud cyfraniad ar hyn o bryd gan fod y praesept wedi'i bennu a'r arian wedi'i ddyrannu. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y sefydliad gan ofyn iddynt wneud cais am gymorth ar ddechrau'r flwyddyn, pryd y gellid trafod y mater ac, os oedd y Cyngor yn dymuno cefnogi cyfraniad, gellid ei gynnwys yn y praesept.

3.Adroddodd y Clerc fod y Diwrnod Hwyl a gynlluniwyd ym Metws yn Rhos wedi'i ganslo oherwydd llifogydd yn y Pafiliwn Chwaraeon. Roedd grant o £250.00 wedi'i ddyfarnu ac, oherwydd canslo'r digwyddiad, bydd y swm bellach yn cael ei ad-dalu i'r Cyngor Cymuned.

4.Adroddodd y Cynghorydd Gwyn Jones fod Cronfa'r Parc Solar wedi awdurdodi grant o £4,000 ar gyfer atgyweirio wal derfyn Eglwys Sant Mihangel, Betws yn Rhos.

Ceisiadau gan y Cyngor Cymuned

Mae CVSC bellach yn cynorthwyo'r Cyngor Cymuned i ganfod grantiau addas ar gyfer prosiectau amrywiol o fewn y gymuned.

10. **CYNLLUNIO**

http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/53589 Ymgeisydd: Mr J Fetherstonhaugh

Cynllun: Codi adeiladau atodol pren ar safle glampio, defnyddio'r tir ar gyfer gwersylla a gwaith cysylltiedig.

Safle: Bryn Neuadd, Hapus Yurt Croes Engan Road Trofarth Betws Yn Rhos LL22 8BT

Archwiliwyd dogfennau'r cais cynllunio.

Nodwyd bod yr ymatebion gan y cymdogion yn gwrthwynebu'r cais yn gryf.

Fodd bynnag, roedd y Cynghorwyr o'r farn na allent wneud penderfyniad gwybodus gan eu bod yn teimlo nad oedd y cais yn cynnwys digon o fanylion ynghylch maint a graddfa'r datblygiad a'r hyn y byddai hynny'n ei olygu o ran mynediad i'r safle, yn enwedig gan fod y ffyrdd gwledig yn gul.

Gofynnir i'r Clerc gysylltu â'r Adran Gynllunio i ofyn iddynt sicrhau bod cynlluniau manwl ar gael, er mwyn galluogi'r Cynghorwyr i adolygu'r cais yn briodol gyda'r holl fanylion angenrheidiol.

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/53579 Ymgeisydd: J D P Williams & CO

Cynllun: Cais ôl-weithredol ar gyfer stablau ac adeiladau cysylltiedig ar iard geffylau lawn ag wyth o stablau

Safle: Bryn Elian Farm, Dolwen, Betws Yn Rhos LL22 8NR

Archwiliwyd dogfennau'r cais cynllunio.

Mynegwyd pryder gan y Cynghorwyr mai cais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol oedd hwn ac, i bob pwrpas, bod y gwaith wedi'i gwblhau cyn i unrhyw gais cynllunio gael ei gyflwyno neu cyn i unrhyw ganiatâd gael ei roi.

Roedd y Cynghorwyr o'r farn bod hyn yn ymddangos yn amal, ac fe ofynnwyd am adolygiad o geisiadau ôl-weithredol o'r fath. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried cynyddu cost ceisiadau ôl-weithredol er mwyn ceisio atal hyn rhag digwydd.

Fodd bynnag, nid oedd gan y Cynghorwyr wrthwynebiad i'r cais ac roeddent yn fodlon gadael y penderfyniad i'r Awdurdod Cynllunio.

Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Adran Gynllunio am safbwynt y Cyngor.

Cyfeirnod: 0/53418 a 0/53417 Ymgeisydd: Mr and Mrs Macbeth

Cynllun: Gosod 2 ffenest newydd ar ochr y de ddwyrain, creu 2 ystafell wely i deulu, 2 ensuite newydd ac addasiadau mewnol i roi mynediad o'r landin i ystafell wely newydd

Safle: Ffarm Country House Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AR

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Bydd y Cynghorydd Ifor Lloyd yn cysylltu â Nia Clwyd, Menter Iaith, a fyddai'n gallu cynorthwyo'r busnes o ran defnyddio'r Gymraeg.

Cyfeirnod: 0/53261 Ymgeisydd: Mr Elgan Jones

Cynllun: Codi lagwn slyri

Safle: Bryn Dansi Bryn Dansi Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NS

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/53039 **Ymgeisydd: Ms R Jones**

Cynllun: Trosi adeiladau fferm diangen yn llety preswyl arfaethedig gan gynnwys estyniadau i'r adeilad

Safle: Nant Ucha Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EF

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52910 **Ymgeisydd: Mr Sean McBride**

Cynllun: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45158 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl o ran caniatâd cynllunio amlinellol 0/42343 (Datblygiad tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen) Hen Golwyn ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 2))

Safle: Tir yn Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UP

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52909 **Ymgeisydd: Mr Sean McBride**

Cynllun: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45161 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl o ran caniatâd cynllunio amlinellol 0/42351 (Datblygiad tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen) Hen Golwyn ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 1))

Safle: Tir yn Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UP

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

APÊL GWRTHOD CYNLLUNIO

Cyfeiriad y Safle: Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8UU

Disgrifiad o'r Datblygiad: Newid defnydd tir ar gyfer storio carafannau gyda thirlunio cysylltiedig.

Cyfeirnod y Cais: 0/52387

Enw'r Apelydd: BR Storage

YR APEL WEDI CAEL EI WRTHOD

11. **MATERION ARCHWILIO MEWNOL AC ALLANOL**

    Roedd y Clerc wedi anfon y dogfennau i Archwilio Cymru er mwyn cwblhau'r archwiliad. Dim diweddaraida wedi ei dderbyn..

12. **MATERION CYNGOR SIR CONWY - Y CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

    Rhoddodd y Cynghorydd Lloyd ddiweddariad ynghylch amrywiol faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor Sir.

    Gofynnodd y Cynghorydd Lloyd i unrhyw gwlfertiau sydd wedi'u blocio, ac a allai ddod i'r amlwg yn dilyn y cyfnod hir o dywydd sych, gael eu hadrodd ar unwaith i CBSC neu iddo fo.

13. **CYNHALIAETH ADNODDAU O FEWN ARDAL Y CYNGOR CYMUNED**

a. **Maes Chwarae Betws yn Rhos/Llanelian**

Diweddarodd y Clerc fod y cais am grant o £25,000 a gyflwynwyd i Gronfa Balchder mewn Lle (Pride in Place) wedi'i gymeradwyo. Bydd y dogfennau angenrheidiol yn cael eu hanfon at y Clerc.

Bydd y cais i Gronfa'r Parc Solar am £24,921.97 bellach hefyd yn cael ei ddyfarnu.

Bydd y grantiau hyn yn talu cost lawn yr offer newydd a'r gwaith o adnewyddu'r offer presennol yn y Maes Chwarae.

Mae'r Clerc wedi cysylltu â David Dudley, Arolygydd Meysydd Chwarae CBSC, a fydd bellach yn cael tri dyfynbris ar gyfer y gwaith. Yna, mater i'r Cyngor Cymuned fydd dewis y cyflenwr. Bydd y gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen cyn gynted â phosibl.

Ar 23 Gorffennaf 2026, cyfarfu'r Cynghorydd Glena Humphrey â'r AS lleol, Claire Hughes, yn y Maes Chwarae a rhoddodd ddiweddariad iddi ar y cynlluniau ac ar faterion eraill sy'n effeithio ar y Gymuned.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn hysbysu Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Betws yn Rhos bod y cais am grant wedi bod yn llwyddiannus**.**

b. **Diffibrilwyr**

Gwiriwyd y ddiffibriliwyr ar 14fed Mehefin 2026 ac roeddent mewn cyflwr da.

O ran cais y Cynghorydd Gwenda Davies i gael sticeri gwybodaeth newydd ar gyfer y cypyrddau diffibriliwr, roedd y Clerc wedi anfon e-bost at Tomos Hughes ar 4ydd Awst 2026 yn gofyn am wybodaeth am gyflenwyr. Ni dderbyniwyd ymateb. Bydd y Clerc yn cysylltu â Humphreys Signs i gael dyfynbris.

Adroddodd y Clerc fod gwybodaeth wedi'i derbyn gan **'**The Circuit' bod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, ar 25ed Awst 2026, wedi rhoi cyngor i alwr ynghylch y diffibriliwr yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos. Roedd y Clerc wedi gwirio'r diffibriliwr ar 27ed Awst 2026. Roedd yn amlwg ei fod wedi'i dynnu o'r cabinet ac yna'i roi'n ôl, ond nad oedd wedi'i ddefnyddio. Mae'r diffibriliwr bellach yn ôl ar-lein.

c. **'Yr Hwb'**

Mae gwirfoddolwyr yn dal i fod eu hangen i oruchwylio'r sesiynau a gynhelir rhwng 9:00yb a 12:00yp bob bore Mawrth ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos.

d. **Gwelyau blodau**

Mae Hilda Gibbs wedi plannu planhigion newydd. Mae nifer o sylwadau cadarnhaol wedi ei derbyn gan drigolion y pentref.

e. **Cyfleuster Toiledau yn Llanelian**

Diweddarodd y Clerc fod Lanyon Bowdler, Cyfreithwyr, Conwy yn bwrw ymlaen â'r brydles gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC). Roedd Gemma Wynne (Cyfreithiwr) wedi gofyn i Gyngor Conwy gwblhau'r broses cyn diwedd mis Mehefin. Fodd bynnag, nid oedd wedi derbyn unrhyw ymateb gan CBSC a bydd yn parhau i fynd ar eu trywydd. Mae'r Clerc a Gemma Wynne wedi bod yn gofyn yn gyson am ddiweddariadau, ond nid yw'r mater yn symud ymlaen. Mynegodd y Cynghorwyr eu hanfodlonrwydd ynghylch yr oedi gan CBSC. Bydd y Clerc yn gofyn i Gemma Wynne gysylltu â'r Adran Gyfreithiol yn CBSC eto.

Daeth yn amlwg bod CBSC wedi adnewyddu nifer o doiledau cyhoeddus cyn eu trosglwyddo i Gynghorau Cymuned lleol. Roedd Gemma Wynne wedi ysgrifennu at CBSC yn gofyn i'r bloc toiledau – yn enwedig y ffenestr do, y cafnau a'r fascia – gael eu hadnewyddu. Disgwylir ymateb.

Roedd Gemma Wynne wedi cadarnhau y byddai gosod cloeon amser a phaneli solar yn cael ei ganiatáu o dan amodau'r brydles, ond byddai angen cytuno ar hyn gyda CBSC cyn i'r gwaith ddechrau.

Roedd y Cynghorydd Gwyn Jones wedi cael amcangyfrif gan Strobe Security Solutions, Hen Golwyn, ar gyfer gosod uned cyflenwad pŵer, batri wrth gefn, clo magnetig, bysellbad ar gyfer mynediad y tu allan i oriau, botwm ymadael gwydr toradwy, clo amser, uned ffiws a chlo drws ar ddrysau'r toiledau. Yr amcangyfrif oedd £982 ynghyd â TAW ar gyfer pob drws.

Unwaith y bydd y brydles wedi'i chwblhau, bydd angen penderfynu faint o'r tri drws fydd yn cael eu defnyddio.

Mae'r manylion wedi ei rhannu gyda Zurich Insurance, ac mae'n debygol y bydd y dyfynbris gwreiddiol o £613.90 (sy'n cynnwys yswiriant blynyddol arferol y Cyngor) yn cynyddu. Unwaith y bydd y brydles wedi'i chwblhau, bydd y Clerc yn cael dyfynbris arall er mwyn cymharu'r costau.

f. **Materion Cyffredinol**

Tir yn Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Maes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio offer peiriannau. Bydd y Cyngor Sir yn rhoi diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau.

Mae'r Clerc wedi cysylltu â Mel Elham i ddarparu dyfynbris ar gyfer ail-baentio'r ddau giosg ym Metws yn Rhos a Dolwen. Manylion yn aros.

Mae'r Clerc wedi hysbysu ERF yng Nghyngor Sir Conwy bod angen i'r Cyngor Sir asesu'r arwyddion yn y lleoliad ac y dylid ystyried arwydd 'ARAF' cyn y tro ar Ffordd Galch, Llanelian lle mae nifer o ddamweiniau wedi digwydd.

Diweddariad gan ERF wedi ei dderbyn 4/8/2026 fod y mater wedi cael ei yrru i'r adran berthnasol.

Mewn perthynas â'r hysbysfwrdd ger y siop yn Betws yn Rhos a gafodd ei ddifrodi, bydd y Cynghorydd John Evans yn symud ymlaen gyda'r gwaith atgyweirio ac yn cael persbecs newydd.

Mae y Clerc wedi diweddaru ERF am problemau ar y ffyrdd canlynol,

Mae'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain o Tan y Wal, Dolwen, i Dawn, heibio Fron Uchaf, yn mynd yn dagfeydd wrth i gerbydau mawr geisio teithio ar hyd y ffordd. Gofynnwyd i asesiad gael ei gynnal i ystyried gosod arwydd "Anaddas i Gerbydau Trwm" ger Tan y Wal.

Derbyniwyd diweddariad ar 7fed Awst 2026 gan CBSC yn nodi bod gwaith clirio llystyfiant i'w wneud ac, unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, y bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal i ystyried a fyddai gosod arwyddion 'Anaddas ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV)' yn briodol. Nodwyd mai arwyddion cynghorol yn unig yw'r arwyddion hyn ac nad ydynt yn gwahardd mynediad yn gyfreithiol.

Bydd y Clerc yn gofyn, unwaith y bydd y gwaith clirio llystyfiant wedi'i gwblhau, a ellir trefnu ymweliad safle gyda un o'r Cynghorwyr.

Mae nifer o dai ar hyd Ffordd Abergele, Betws yn Rhos, yn ardal cod post LL22 8AF, wedi gosod conau a/neu ffensys cadwyn wrth fynedfeydd eu dreifiau, gan achosi rhwystr ar y ffordd gan fod yr holl fannau pasio ar gyfer cerbydau wedi'u rhwystro.

Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio ar 7fed Gorffennaf 2026, gan y credid bod rhan o'r Ceisiadau Cynllunio ar gyfer y cartrefi yn nodi bod angen darparu mannau pasio ar y dreifiau. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb hyd yma.

Roedd y Clerc wedi rhoi gwybodaeth i ERF am y materion canlynol:

1. Addasrwydd Groes Road, sy'n arwain o Hen Golwyn i Lanelian, ar gyfer cerbydau hir a thrwm. Bu sawl digwyddiad lle mae cerbydau o'r fath wedi mynd yn sownd ger Fron Farm. Gofynnwyd a fyddai'n bosibl asesu'r ffordd er mwyn penderfynu a ellid gosod arwyddion yn nodi ei bod yn “Anaddas i Gerbydau Hir/Trwm”.

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad hyd yma.

2. Mae cangen fawr o goeden yn hongian yn beryglus dros y ffordd ddiddosbarth rhwng Plas yn Betws, Betws yn Rhos, LL22 8AU, a Phen y Geulan, Betws yn Rhos. Mae'r gangen yn tyfu o ochr Plas yn Betws i'r ffordd.

   Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at y Swyddog Coed yn unol â’r cais. Derbyniwyd ymateb ar 4ydd Awst 2026 yn egluro y byddai’r Arolygydd Priffyrdd yn fodlon nad oedd y gangen yn berygl gwrthrychol i’r briffordd a’i bod yn clirio’r briffordd i’r uchder gofynnol o 5.2 metr. Ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

Codwyd y materion canlynol hefyd:

Nid oes arwyddion bellach i ddynodi pentref Dolwen ar y ffordd ger y fynedfa i Heronwater ar y B5381, cyn y bont dros yr afon, nac ar y B5381 ger y Felin wrth ddod i lawr y bryn i'r pentrefan. Gofynnwyd iddynt gael eu ailosod.

Derbyniwyd diweddariad ar 21ain Awst 2026 gan ERF yn nodi y bydd swyddog yn ymweld â’r safle pan fydd yn yr ardal nesaf er mwyn cynnal asesiad llawn o’r sefyllfa.

Mae ceuffos a thwll yn y ffordd ar y B5381 ger y gyffordd ar gyfer Parc Carafanau Hunters Hamlet, a allai achosi difrod i gerbydau.

Derbyniwyd diweddariad ar 5ed Awst 2026 gan ERF yn nodi bod y mater wedi'i anfon ymlaen at yr adran berthnasol er mwyn gweithredu y broblem

Mae ffos wedi'i hatgyweirio'n wael ar y B5381 wrth y groesffordd a elwir yn gyffredin yn Groesffordd Garnedd. Credir y gallai'r gwaith fod wedi'i wneud gan Dŵr Cymru, ac ystyrir bod yr atgyweiriad i'r briffordd yn anfoddhaol.

Derbyniodd y Clerc alwad gan ERF yn nodi y byddai'r mater yn cael ei ymchwilio.

Tynnodd y Cynghorydd Irwedd Griffiths sylw at y ffaith bod dwy wrthdrawiad traffig ar y ffyrdd wedi digwydd yn ddiweddar yng Nghroesffyrdd Garnedd ar yr B5381.

Bydd y Clerc yn cysylltu ag ERF i ofyn, oherwydd y gweledded gwael wrth y cyffyrdd ildio ffordd yn y groesffordd, a ellid gosod drych traffig er mwyn galluogi defnyddwyr y ffordd i gael golwg well a mynd i mewn i'r B5381 yn ddiogel.

14. **CYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT**

Roedd y cais praesept am £22,000 gyda £2,558.25 yn cael ei dalu o'r cronfeydd wrth gefn wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Conwy. Taliad o £7,334.00 wedi cael ei wneud ar 17 Ebrill 2026 ac yna dau daliad arall ar 14 Awst 2026 ac 11 Rhagfyr 2026.

15. **FFERMYDD GWYNT AR Y TIR AC AR Y MÔR – AWEL Y MÔR/GWYNT Y MÔR/MONA**

Overview

About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps

Our work so far Interactions with other marine users

Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map

Mae'r pwnc hwn yn parhau ar yr agenda ac mae unrhyw ddatblygiadau yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod. Bydd unrhyw gynlluniau neu geisiadau pellach yn cael eu monitro'n agos. Mae datblygiad Awel y Môr yn mynd rhagddo.

Nid oes diweddariad ffurfiol ynghylch y cynnig ar gyfer tyrbinau gwynt a pharc solar ar Fynydd Llanelian. Bydd y mater yn cael ei fonitro.

16. **Y GADLAS**

Adroddodd y Clerc fod y cyfarchiad pen-blwydd i Mrs Ena Wynne gan y Cyngor Cymuned wedi'i gynnwys yn y rhifyn diweddaraf.

17. **UNRHYW FATER ARALL**

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, caewyd y cyfarfod am 9.30yh.

CADEIRYDD …… Glena Humphrey

CLERC …… Mel Jones

DYDDIAD: 5ed Hydref 2026